

Julie Morgan AC  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

20 Mai 2019

Annwyl Julie,


**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), gwnaethom wahodd CAFCASS Cymru i roi tystiolaeth lafar inni. Wrth ymateb i'n gwahoddiad, rhoddodd CAFCASS Cymru wybod inni, drwy eich swyddogion, ei bod wedi ystyried y cais yn ofalus, ond ei bod yn teimlo nad oedd yn briodol iddi ddod i roi tystiolaeth ar wahân, gan ei bod yn Gyfarwyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru yn hytrach na bod yn sefydliad annibynnol.

Yn sgil y cyfeiriadau a wneir at waith CAFCASS Cymru ym Memorandwm Esboniadol y Bil ac yn y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu hyd yma, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael atebion ysgrifenedig gan CAFCASS Cymru i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Yn dilyn gohebiaeth â'ch swyddogion, rydym ar ddeall mai'r opsiwn a ffeirir gennych chi a chan sefydliad CAFCASS Cymru yw cyfeirio'r cais hwn drwy Lywodraeth Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael y wybodaeth hon erbyn **dydd Mawrth 4 Mehefin**, fel y gall lywio ein dull gweithredu mewn perthynas â'n sesiwn derfynol gyda chi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ar 12 Mehefin.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd



## 1. Hynt y Bil

A wnewch chi ddarparu manylion am gyfraniad CAF/CASS Cymru hyd yma at y broses o ddatblygu'r Bil?

## 2. Adnoddau a chapasiti

A wnewch chi rannu sylwadau CAF/CASS Cymru am y cyfeiriadau a ganlyn at CAF/CASS ym **Memorandwm Esboniadol** y Bil, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw CAF/CASS yn fodlon bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil os caiff ei ddeddfu?

- **Tudalen 34 – Blwch costau heb eu meintoli**

“Mae costau anhysbys yn cynnwys costau posibl ar gyfer [...] y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) Cymru, o ganlyniad i gynnydd posibl yn nifer yr honiadau o ymosodiadau cyffredin ar blentyn neu blant rhieni sy'n ymwneud ag achos mewn llys teulu.”

- **Tudalen 80 - Llysoedd Teulu - paragraff 41**

“Gallai ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd yn yr honiadau bod rhieni'n cosbi'n gorfforol mewn achosion lle mae'r naill riant yn ceisio cryfhau eu hachos yn erbyn y llall mewn achos sy'n ymwneud â'r teulu; byddai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gorfod ymchwilio. Byddai Cafcass Cymru yn gorfod adrodd ar y mater i'r llys (os oedd llys yn rhan o'r broses), a gallai'r llys orfod dyfarnu ar nifer mwy o faterion. Gallai hyn arwain at lwyth gwaith mwy ac oedi posib.”

- **Tudalen 81 - Cafcass Cymru - paragraffau 43-44**

“Mae gan Cafcass Cymru rôl statudol o roi cyngor i'r Llys Teulu ynghlŷn â'r hyn sydd er budd pennaf i'r plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Ar ochr breifat y gyfraith h.y. lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar drefniadau sy'n ymwneud â'r plentyn ar ôl gwahanu, a'u bod wedi cyflwyno cais i'r llys, mae'n rhaid i Cafcass Cymru gynnal archwiliadau diogelu gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chyfweliadau diogelu gyda'r rhieni. Mae'n debygol y bydd dileu'r amddiffyniad yn ychwanegu at y wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r llysoedd. Wedi'r cam hwn, os yw Cafcass Cymru yn weithgar gyda theulu ac yn dod ar draws



problemau o'r fath (neu os oes honiadau) yna bydd dyletswydd arno i sôn wrth y gwasanaethau cymdeithasol a'r llys, a allai arwain at ryw faint o waith ychwanegol."

### **3. Y perygl o adroddiadau maleisus**

A wnewch chi ddarparu sylwadau CAF/CASS Cymru am y cyfeiriad a ganlyn at adroddiadau maleisus yn y **Memorandwm Esboniadol**? A fyddai modd i CAF/CASS Cymru nodi pa asesiad a wnaed, os o gwbl, o'r perygl o adroddiadau maleisus mewn achosion cyfraith breifat, ac ym mha ffordd y mae CAF/CASS Cymru yn rhagweld y gallai hyn effeithio ar ei gwaith?

"Ymddengys fod cysondeb ymhlith y pedwar heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r categorïau o droseddau a gofnodwyd. Nodwyd bod cosb gyfreithlon wedi'i defnyddio fel amddiffyniad neu wedi'i hystyried yn y broses o wneud penderfyniad mewn tua 12% o'r categorïau o droseddau a gofnodwyd ac a enwyd. Roedd themâu trawsbynciol a oedd yn ymwneud ag adroddiadau maleisus gan gynbartneriaid yn gyffredin. Rhoddwyd sylw blaenllaw i faterion fel mynediad cyfreithiol a materion a oedd yn ymwneud â chymorth ariannol." (Tudalen 99, paragraff 12)

